

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR Y.C. A GYNHALIWDYD AR NOS LUN 23AIN O FAI 2016 YN YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Barri Evans (Cadeirydd), Philip Williams, Jill Evans, Iona Edwards-Jones, Elfed Williams a'r Clerc.

1 YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Gwennan Hughes, Iwan Jones, Hywel Davies, Falmai Evans, Stanley Williams a'r Cyngorydd Sir Ddinbych Joseph Welch.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 25ain o Ebrill 2016 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd copi o'r polisi'r Cyngor Sir Ddinbych sydd ddim yn caniatáu'r Cyngorau Cymunedol ariannu arwyddion fflachio diogelwch.

B. Nodwyd fod y fan sydd wedi ei farcio o yn yr gilfa'n o flaen Ysgol Bro Cinmeirch wedi symud o'r lleoliad erbyn hyn.

C. Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl ymateb oddi wrth Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar faterion y ffyrdd yn y gymuned. Penderfynwyd fod y Clerc atgoffa'r Adran Priffyrdd at y materion.

D. Derbyniwyd adroddiad y Cyngorydd Elfed Williams bod Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu un arwydd o flaen Siop-y-Pentre yn Llanrhaeadr. Diolchwyd i'r Cyngorydd Williams am ei waith ar y mater.

E. Chadarnhad bod yr aelodau wedi cytuno codi'r cyflog y Clerc 10% am y flwyddyn ariannol 2016/17, sef cyflog o £1,980.00.

4. CYLLID.

A. Datganiad Banc £10,062.00.

B. Derbyniwyd rhan gyntaf o'r precept 2016/17 - £3,992.00.

C. Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr am gefnogaeth arian y Cyngor.

D. Taliadau:-

1. Cyngor Sir Ddinbych am gyfarfod y Cyngor Cymuned - £20.00.

2. Harold Smith, Archwiliwr Mewnol - £144.00.

5. MATERION CYNLLUNIO.

A. Mae'r cais cynllunio am ychwaneg o garafanau ayb ym Mharc Carafanau Caer Mynydd, Saron wedi cael ei dynnu yn ôl.

B. Mae'r Arolygaeth Gynllunio wedi caniatáu'r apêl i'r cais cynllunio Brenig Wind Limited ar safle dwyrain o Lŷn Brenig ar y B4501 yn Nantglyn.

C. Derbyniwyd gwybodaeth trwy wefan Cyngor Sir Ddinbych fod Brenig Wing Limited wedi mynychu cais cynllunio am wella'r mynediad y trac i'r safle. Penderfynwyd y Cyngorydd Iona Edwards-Jones ysgrifennu sylwadau'r Cyngor dros y Clerc.

D. Derbyniwyd cais cynllunio am estyniad i Llwyn Onn, Llanrhaeadr – dim gwrthwynebiad gan yr aelodau.

6. GOHEBIAETH.

- A. Derbyniwyd manylion newidiadau i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol yng Nghymru. Penderfynwyd yr aelodau i'w thrafod yn cyfarfod nesaf y Cyngor ar ôl i'r Clerc gyrru copi i'r aelodau.
- B. Dosbarthwyd y Clerc manylion gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych i'r aelodau.
- C. Derbyniwyd nifer o adroddiadau.

7. UNRHYW FATER ARALL.

- A. Cafwyd trafodaeth ynglŷn ar ganlynol:-
 1. Llwybr cyhoeddus wedi ei chau rhwng Ffynnon Dyfnog a'r Ficerdy yn Llanrhaeadr.
 2. Gafna wedi malu ar y llwybr cyhoeddus ar faes y Sioe Llanrhaeadr. Cytunodd y Cynghorydd Philip Williams i drosglwyddo'r rhif y llwybr i'r Swyddog Cyngor Sir Ddinbych.
- B. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc ymestyn gwahoddiad i Swyddog Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych i drafod materion cyflwr y ffyrdd yn y gymuned.

8. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 27ain o Fehefin 2016 yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr am 7.30 o'r gloch.